**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Llangefni, ddydd Llun, 7 Tachwedd, 2016**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mercher, 9 Tachwedd, 2016. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher, 16 Tachwedd, 2016. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau, 17 Tachwedd, 2016.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol**: Y Cynghorwyr John Griffith, Llinos M Huws, Gwilym O Jones, Alun Mummery.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd J A Roberts

(10:00 i 10.40 am)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cyllideb Refeniw Ddrafft 2017/18**<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD**<br><br>**• Cymeradwyo'r gyllideb ddigyfnewid o £128.259m ar gyfer 2017/18 ac y dylai fod yn sail i gyllideb refeniw 2017/18;**<br><br>**• Dyrannu'r grantiau sydd wedi eu hymgorffori yn y Cyllid Allanol Cyfun a'r cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd i'r cyllidebau priodol.**<br><br>**• Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio gwneud digon o arbedion yn 2017/18 i gydbwyso'r gyllideb refeniw heb orfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol**<br><br>**• Y dylai'r Pwyllgor Gwaith geisio barn y cyhoedd am yr arbedion arfaethedig.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo’r rhagdybiaethau cyllidebol fel sail ar gyfer cyllideb Refeniw 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Yndi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cyllideb Gyfalaf Ddrafft 2017/18**<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD –**<br><br>**• Parhau i ariannu'r cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad ar gost o £8.826m, gyda £647k ohono yn dod o gyllid craidd y Cyngor.**<br><br>**• Ariannu gwariant ar grantiau cyfleusterau i'r anabl, ailwampio adeiladau cyfredol, asedau TG a cherbydau fel y nodir ym mharagraff 3.3. yr adroddiad ar gost o £2.301m**<br><br>**• Cymeradwyo cyllido’r ddau brosiect Buddsoddi i Arbed sy’n sgorio uchaf fel y nodir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad ar gost o £0.186m**<br><br>**• Cymeradwyo ariannu cynlluniau cyfalaf newydd fel y nodir ym mharagraff 3.6. yr adroddiad ar gost o £11.675m, gyda £2.531m ohono’n cael ei ariannu o gyllid craidd y Cyngor.**<br><br>**• Cymeradwyo cyllid o £0.76m ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd yn unol â pharagraff 3.5. yr adroddiad.**<br><br>**• Bod angen gwneud gwaith pellach i asesu dichonoldeb ariannu'r ddau gynllun a nodir ym mharagraff 3.7 yr adroddiad drwy fenthyca digymorth.**<br><br>**• Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn** |

| | |
|---|---|
| | **amodol ar gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ar ariannu'r elfen benthyca digefnogaeth o'r rhaglen.**<br><br>• **Cymeradwyo cynnwys cynlluniau'r Cyfrif Refeniw Tai, fel y nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad, yn y rhaglen gyfalaf derfynol am gyfanswm cost o £ 9.889m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Fel bod modd i'r Cyngor Sir gymeradwyo ac awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Yndi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2017/18**<br>Pennaeth Trawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau'r Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2017/18.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Hwyluso'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer Cyllideb 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Yndi** |